# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL

# 24/06/2025

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Meryl Roberts, Dewi Jones, Paul Rowlinson, Anne Lloyd-Jones, Elin Walker Jones a Jina Gwyrfai.

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd) a Bethan Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

**Athrawon :** Miriam A. Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion :** Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Eitem 7**: Jennie Downes

## 1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Gadeirydd y pwyllgor ar gyfer 2025/26.

## 2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-gadeirydd y pwyllgor ar gyfer 2025/26.

## 3. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Paul Rowlinson.

## 4. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
- Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)
- Jean Owen (Ffydd Bahá'í)
- Nathan Abrams (Iddewiaeth)
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts

Croesawyd Phil Lord fel aelod o’r Pwyllgor yn Ymgynghorydd Annibynnol. Diolchwyd i Buddug Mair Huws am ei gwaith ardderchog ar y Pwyllgor hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones fuddiant personol am ei bod yn aelod o fwrdd llywodraethwyr Ysgol Pen-y-bryn, ond nid oedd o'r farn fod hyn yn ei rhagfarnu.

**6. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**7. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 04 Chwefror 2025 fel cofnodion cywir, gan nodi un cywiriad.

**8. MATERION YN CODI**

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad blynyddol 2024/25 gan nodi un cywiriad.

**9. CYFIEITHU'R ANGHYFIEITHADWY**

Cyflwynwyd yr eitem gan Jennie Downes (Myfyriwr Ôl-raddedig) ar Gyfieithu'r Anghyfieithadwy. Roedd y cyflwyniad yn archwiliad o'r modd y gellir taflu goleuni ar ddatblygiad ysbrydol yn y Maes Dysgu Dyniaethau drwy lens y Cynefin, gyda ffocws arbennig ar ddysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Yn ystod y cyflwyniad, trafodwyd y prif benawdau canlynol:

- Cyflwyniad a chefndir byr i'r ymchwil i'r Cynefin.
- Golwg ar ddeddfwriaeth Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru.
- Ceisio dealltwriaeth o'r cwestiwn: Sut y gellir, drwy ymgysylltu â'r Cynefin, gefnogi dysgwyr (Camau Cynnydd 1 i 3) i ymateb i'r elfen ysbrydol yn eu dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Cwmpas yr ymchwil ar y Cynefin.
- Cyfieithu'r Cynefin i ymarfer cwricwlaidd.
- Ymchwil ddyfnach yn canolbwyntio ar y Beibl Cymraeg.
- Ymchwil bellach i ddiwygio'r cwricwlwm a'r cyd-destun byd-eang.
- Ysbrydolrwydd a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Y Ffocws Byd-eang o fewn Cwricwlwm i Gymru.

I gloi, tynnwyd y canfyddiadau canlynol o'r ymchwil:

- Bod angen amgylchedd dysgu 'diogel' er mwyn gallu archwilio cysyniadau heriol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a chydnabod a rhoi gwerth ar gynnydd ysbrydol.
- Y gellid defnyddio pwnc y Beibl Cymraeg a'r cyfieithiadau fel cyd-destun dilys ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm yng Nghymru.
- Ei bod yn bwysig datblygu diwylliant o gydnabod a gwerthfawrogi arferion sy'n dod i'r amlwg ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

- Bod angen ymchwil bellach ar naratif a'r Cynefin, ac y bydd hyn yn cael ei archwilio yn ystod y cam nesaf o'r ymchwil.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Holwyd ynghylch y ffordd orau i rannu ffrwyth yr ymchwil ag ysgolion a sut i droi'r ymchwil yn adnoddau ar gyfer dysgu'r cwricwlwm. Mewn ymateb, nodwyd bod y Bible Society wedi creu adnodd bychan ar sail yr ymchwil sy'n canolbwyntio ar hanes lleol, a bod hwn yn bwynt cychwyn cadarnhaol. Mynegwyd bod cyfle i rannu'r cyflwyniad ag ysgolion a'i bod yn hapus i wneud hynny'n bersonol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau fod ysgolion yn edrych ar eu hanes a'u straeon lleol wrth drafod Cynefin a'r ymchwil. Nodwyd bod Dr Gareth Evans-Jones ym Mhrifysgol Bangor wedi cyflwyno'r ymchwil o fewn y Brifysgol, gyda'r camau nesaf yn cynnwys cyhoeddi'r ymchwil mewn cylchgrawn ym mis Tachwedd.

Holwyd a oedd y tensiwn rhwng y syniad o fod yn gysylltiedig â rhywle a bod yn or-gysylltiedig wedi'i archwilio o fewn yr ymchwil, ac os nad oedd, a oedd ymwybyddiaeth o ymchwil arall a oedd wedi archwilio'r maes hwn. Mewn ymateb, mynegwyd diddordeb personol mewn straeon a naratifau a'r modd y cânt eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall ac o un diwylliant i'r llall. Nodwyd ei bod yn bwriadu cynnal ymchwil pellach yn y maes hwn.

Holwyd pa effaith a gafodd y ffaith fod y Testament Newydd gwreiddiol wedi'i ysgrifennu yn y Groeg, ac nid yn yr Aramaeg, yn y cyd-destun hwn. Mewn ymateb, nodwyd bod William Morgan wedi gweithio o'r Ysgrythurau Groeg gwreiddiol, nid o gyfieithiad Aramaeg. Mynegwyd y farn bod gwaith William Morgan yn anhygoel, a bod ystyr llawer dyfnach i gyfieithiad Cymraeg y Beibl o ganlyniad.

Nodwyd bod angen gwahaniaethu rhwng gwahanol gyfieithiadau o'r Beibl - rhai sy'n ceisio cadw at gyfieithiad dilys a rhai sy'n ceisio rhoi sylwebaeth drwy aralleirio'r testun. Nodwyd ymhellach ei bod yn debygol fod gwahaniaethau yn y modd y caiff yr un ystyr ei gyflwyno rhwng y Beibl Cymraeg a'r Beibl Saesneg. Mynegwyd bod astudio hyn o fewn cyd-destun AG yn hynod ddiddorol ac yn wers werthfawr i ddysgwyr.

Nodwyd bod y cyflwyniad yn hynod ddiddorol. Mynegwyd gobaith y gellid integreiddio'r ymchwil yma ar Gynefin i mewn i wersi ysgolion gyda thema bro. .

Penderfynwyd anfon copi o gyflwyniad Jennie Downes at athrawon CGM/AG yng Ngwynedd.

## 10. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

Derbyniwyd yr adroddiadau arolygu.

Holwyd a oedd pob ysgol yn cynnal gwasanaeth boreol ('assembly'). Mewn ymateb, nodwyd y byddai Estyn yn tynnu sylw at unrhyw ysgol nad oedd yn bodloni'r gofyn cyfreithiol am addoli ar y cyd pe byddent yn adrodd yn ôl ar hynny yn eu hadroddiad. Nodwyd mai dim ond methiant i fodloni'r gofyn cyfreithiol a gaiff ei nodi gan Estyn, nid pan fo'r ysgol yn bodloni'r gofyn.

Eglurwyd bod sawl ysgol yn cynnal addoli ar y cyd yn y bore o fewn dosbarthiadau cofrestru, ac yn wythnosol yn cynnal gwasanaeth. Nodwyd ymhellach fod addoli ar y cyd mewn rhai achosion yn cael ei gynnal drwy fyfyrdod yn hytrach nag addoli, a bod y negeseuon a gaiff eu rhannu yn cyd-fynd â chredoau nifer o grefyddau megis caredigrwydd a pharch.

## 11. CYNNWYS ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYSAG

Derbyniwyd adroddiadau blynyddol CYSAG.

Amlygwyd bod cyflwyniad o gyfarfod diwethaf WASACRE ar dudalen 22 ymlaen. Nodwyd bod WASACRE yn ceisio barn CYSAGau ynghylch pa argymhellion i'w rhoi i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys adroddiadau blynyddol. Ymhelaethwyd bod y cyflwyniad yn amlygu'r farn fod y canllawiau ar gyfer cynnwys adroddiadau yn amhendant, wedi dyddio ac yn edrych yn ôl at y gorffennol.

Holwyd a oedd gan Aelodau'r Pwyllgor farn ynghylch addasrwydd y dull presennol o gynhyrchu adroddiad blynyddol a'i gynnwys. Holwyd ymhellach beth oedd barn yr Aelodau ynghylch a ddylai cynllun gweithredu ar gyfer symud ymlaen ddod yn rhan o'r adroddiad blynyddol.

Cytunwyd ei bod yn bwysig cynnwys crynodeb o'r hyn a fu, ond bod angen cael nod cytunedig wrth adrodd yn ôl yn yr adroddiadau blynyddol er mwyn arwain at newid mwy cadarnhaol yn y dyfodol.

## 12. CYFLEOEDD CGM/AG OBLYGOL AR GYFER BLWYDDYN 10 A 11

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y cyflwyniad wedi'i baratoi gyda'r bwriad o helpu athrawon ac arweinwyr ddeall sut mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ffitio i mewn i'r cwricwlwm ehangach, a beth sy'n ofynnol yn gyfreithiol i'w ddarparu i ddysgwyr o fewn y maes (yn enwedig ym Mlwyddyn 10/11).
- Bod y cyflwyniad yn canolbwyntio ar sut y gall ysgolion ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddysgwyr y tu hwnt i bwnc TGAU.
- Bod sawl newid wedi'i wneud i Gwricwlwm i Gymru mewn perthynas â CGM, sef:
    - Bod angen cynnwys crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.
    - Bod yr hawl i dynnu'n ôl o CGM wedi'i ddiddymu.
    - Bod dim gofyn i ddarparu CGM i ddisgyblion ôl-16.
- Bod CGM yn hybu nid yn unig ddysgwyr gwybodus ond hefyd rai trugarog a goddefgar.
- Bod gofyn cyfreithiol i ddarparu CGM i ddysgwyr 3–16 oed.
- Bod y cwricwlwm yn cynnwys elfennau datblygiad ysbrydol mewn sawl ffurf, megis tuag at eraill, yn bersonol, yn gymunedol, tuag at y byd naturiol, drwy greadigrwydd ac wrth ystyried ystyr a phwrpas.
- Bod saith lens CGM i'w defnyddio wrth dynnu gwybodaeth.
- Bod sawl dull o gyflwyno CGM i ddysgwyr.
- Bod cymwysterau Agored Cymru yn dod i ben yn 2027, gyda chymhwyster '*Skills Suite'* yn eu disodli.
- Bod gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cwrs byr TGAU CGM, gyda niferoedd y cwrs hir yn aros yn sefydlog.
- Bod pryder ynghylch pwysau gwaith ar athrawon sy'n addysgu TGAU CGM.

- Bod gofynion gwahanol ynghylch CGM mewn ysgolion preifat/ffydd a chynlluniau mewn ysgolion cyhoeddus.

- Bod dulliau Amlddisgyblaethol ac Rhyngddisgyblaethol i ddysgu CGM, ond bod beirniadaeth o'r dull olaf gan fod perygl o golli'r gwahaniaethau rhwng y disgyblaethau unigol.

Awgrymwyd y dylai'r Awdurdod drafod gyda Phil Lord gyda'r bwriad o gynnig hyfforddiant i Benaethiaid Gwynedd ar y mater hwn.

**13. CCYSAGAUC**

- Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025.

- Nodwyd llythyr at Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.40 y.p. a daeth i ben am 5:15 y.p.

---

**CADEIRYDD**